# Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol

## 25 Chwefror 2026

<u>Yn Bresennol</u>
Y Cynghorydd D Clements (Cadeirydd), y Cynghorydd C George, Dr M Havard, Mr J Hogg, y Cynghorydd B Price, y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall a'r Cynghorydd V Thomas.

Cyrhaeddodd Ms H Gwenllian yn ystod y drafodaeth ar Gofnod 4 – Log Gweithredu.

<u>Swyddogion yn bresennol</u>
Charles Rigby (Archwilio Cymru), Ceri Kwiechinski (Astari - Archwilio Mewnol), Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid a Chodi Arian, Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth, Pennaeth Gwasanaethau Pobl, a'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd.

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am -11.30am; 11.45am – 12.45pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth y Cynghorydd M James.

**2. Datgan Buddiannau**
Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau**.**

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2025 i'w cadarnhau a'u dilysu.

Ar gynnig y Cynghorydd Clements a eiliwyd gan y Cynghorydd George, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Tachwedd 2025.

[Cyrhaeddodd Ms H Gwenllian yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol.]

**4. Log Gweithredu**
Nodwyd bod yr amserlen a roddwyd ar gyfer Cam Gweithredu 1064 yn anghywir. **Nodwyd** y diweddariadau eraill yn y Log Gweithredu.

**5. Grŵp Iechyd a Diogelwch**
Cyflwynwyd adroddiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf, 21 Hydref 2025 ac ar 13 Ionawr 2026 er gwybodaeth.

Cytunodd yr Aelodau ei bod yn bwysig cynnal cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith ar y diwrnod cyntaf yn ôl yn y gwaith er mwyn galluogi rhoi'r cymorth priodol i'r staff.

**Nodwyd.**

**6. Gweithgor Amrywio Incwm**

Cyflwynwyd adroddiadau'r cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 2 Gorffennaf 2025 ac ar 17 Medi 2025 er gwybodaeth.

**Nodwyd.**

**7. Paratoi at y Dyfodol? Cynaliadwyedd Ariannol yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro**

Dywedwyd bod adolygiad wedi'i gynnal, fel rhan o raglen astudiaethau llywodraeth leol Archwilio Cymru yn 2025-26, o'r modd yr oedd yr Awdurdod yn gweithredu i'w helpu i gyflawni Cynaliadwyedd Ariannol. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau ariannol yr Awdurdod, y dystiolaeth a ddefnyddiodd i ddatblygu'r cynlluniau hynny, a'r modd yr oedd yn cyflwyno adroddiadau i'r Aelodau ar ei sefyllfa ariannol.

Cyflwynodd Charles Rigby o Archwilio Cymru yr adroddiad, gan amlinellu'r casgliad lefel uchel y daethpwyd iddo bod yr Awdurdod yn gwbl ymwybodol o'i sefyllfa ariannol, gan gynnwys sefyllfa gymharol gref y cronfeydd wrth gefn, a'r risgiau cysylltiedig. Roedd yr Awdurdod wedi canolbwyntio ar gynhyrchu incwm yn y tymor byr, ond wedi dechrau meddwl am ei ddulliau strategol tymor hwy. Yn olaf, nodwyd bod yr Awdurdod yn cyflwyno adroddiadau clir a chyson ar y cyllid, ond y gallai gryfhau hyn drwy egluro goblygiadau'r amrywiadau cyllidebol.

Gwnaed dau argymhelliad, sef y dylai'r Awdurdod adeiladu ar ei gamau diweddar i ddatblygu strategaeth ariannol glir, tymor hwy, a sicrhau bod yr adroddiadau ariannol yn cynnwys cyflawni ei strategaeth ariannol, a goblygiadau'r amrywiadau cyllidebol ar ei sefyllfa ariannol. Hefyd cyflwynwyd Ymateb y Rheolwyr i'r argymhellion hyn, a gofynnwyd i'r Aelodau gytuno â'r ymateb hwn.

Cwestiynodd yr Aelodau y diffiniad o dymor canolig, gan nodi bod yr Awdurdod ar hyn o bryd yn cynhyrchu rhagolygon cyllidebol dros gyfnod o 3 blynedd, ac ym mha fodd y byddai'n bosibl mynd ymhellach na hynny o ystyried bod y setliad grant yn flynyddol a bod ansicrwydd sylweddol yn wynebu cyrff y sector cyhoeddus. Roedd Mr Rigby yn cydnabod bod materion ynghylch hysbysiadau cyllido blwyddyn sengl a hysbysiadau hwyr yn y flwyddyn o grantiau a chyllid, yn gyffredin i bob corff

llywodraeth leol, a bod crynodeb o'r heriau i'r Prif Gynghorau yng Nghymru wedi'u nodi yn yr adroddiad, ac y byddai'n rhannu'r crynodeb hwnnw â'r swyddogion. Cytunodd hefyd i dynnu sylw at arfer gorau o ran cyfathrebu a chyflwyno adroddiadau ariannol.

Gan droi at ymateb y Rheolwyr, roedd rhai Aelodau yn pryderu nad oedd yr ymateb, fel yr oedd wedi'i ysgrifennu, yn ymateb mewn gwirionedd i'r argymhellion. Atebodd y Prif Weithredwr bod yr ymateb wedi'i gadw yn ben agored i amlygu sefyllfa ansicr a deinamig yr Awdurdod. Fodd bynnag awgrymodd y gellid ychwanegu brawddeg at yr ymateb i Argymhelliad 1 yn cytuno i greu cynllun sy'n amlinellu ein Fframwaith, ein Dulliau a'n Blaenoriaethau dros y tymor byr, canolig a hir.

Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan Dr Havard, **penderfynwyd** cytuno ar Ymateb y Rheolwyr, yn amodol ar y geiriad diwygiedig a awgrymwyd yn y cyfarfod, a dirprwyo'r ymateb terfynol i'r Prif Weithredwr ar ôl ymgynghori â Chadeirydd y Pwyllgor a'r Awdurdod.

[Oherwydd bod gofyn i'r Pennaeth Cyllid a Chodi Arian fynd i apwyntiad arall, cytunodd y Cadeirydd i ddod â'r eitem ganlynol ymlaen ar yr agenda.]

**8. Adroddiad ar Berfformiad y Gyllideb am y 9 mis hyd at 31 Rhagfyr 2025**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian adroddiad oedd yn amlinellu perfformiad y gyllideb am y cyfnod hyd at mis Rhagfyr 2025.

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o'r gyllideb Refeniw, y Rhagolwg o'r gyllideb Refeniw yn 2025-26, trosolwg o'r rhaglen Gyfalaf, ac amlinelliad o gronfeydd wrth gefn yr Awdurdod. Nodwyd yn yr adroddiad bod sefyllfa refeniw net yr Awdurdod ar 31 Rhagfyr 2025 yn dangos gwarged net o £580k yn erbyn diffyg cyllideb disgwyliedig o £1,586k (£1,006k yn well na'r gyllideb) gyda'r amrywiadau allweddol wedi'u nodi.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y sefyllfa refeniw a ragwelwyd am 2025–26 yn dangos diffyg o £471k, yn seiliedig ar naw mis o ganlyniadau gwirioneddol hyd at fis Rhagfyr, a'r tri mis sy'n weddill o wariant a gyllidebwyd. Fodd bynnag, disgwylid alldro cytbwys, yn sgîl y cyllid refeniw ychwanegol o £1.4m a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn flaenorol. Cafodd y cyllid hwn ei gario ymlaen fel cronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi ar 31 Mawrth 2025 ac roedd ar gael i ategu cyllideb 2025–26. Ar y sail hwn, nid oedd unrhyw ddiffyg ariannol wedi'i ragweld am y flwyddyn ariannol hon ar hyn o bryd.

Roedd y gwariant cyfalaf am y flwyddyn hyd yn hyn yn £708,748. Nid oedd disgwyl y byddai'r rhaglen gyllidebol lawn o £1,675,174 yn cael ei chyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, cwblhawyd Ystafell Preseli fis Ionawr 2026 a rhagwelwyd y byddai datblygiad Traeth Mawr Trefdraeth yn cael ei gwblhau fis Ebrill 2026, y ddau hyn yn cynnwys 72% o'r rhaglen.

Yn unol â'r rheolau sefydlog contractau oedd wedi'u diweddaru, roedd yn ofynnol adrodd ar dorri rheolau caffael bob chwarter. Dywedwyd am un achos o dorri'r rheolau hyn lle dim ond 1 dyfynbris a dderbyniwyd i gyflenwi ffensys, er bod 4 contractwr wedi cael eu gwahodd i roi pris.

Yn olaf, dywedodd y swyddog bod y system ariannol newydd yn gweithio'n dda, gyda systemau ac adroddiadau newydd yn cael eu datblygu, fyddai'n rhoi mwy o wybodaeth am gyllidebau i'r staff. Byddai cymharu â'r flwyddyn flaenorol yn arbennig o ddefnyddiol ar ôl i flwyddyn gyfan o ddata fod ar gael.

Nododd yr Aelodau y cyfeiriad yn yr adroddiad at gostau cynyddol, ond hefyd at swyddi gwag heb eu llenwi oedd wedi arwain at arbedion. Dywedodd y swyddogion bod rhai costau o ganlyniad i brosiectau neu weithgareddau penodol, fodd bynnag roedd eraill oherwydd y beichiau sylweddol o ran atebolrwydd sy'n deillio o fod yn gorff cyhoeddus. Mewn ymateb i gwestiwn ar fesurau arbed costau, cadarnhawyd bod yr Awdurdod yn gweithio gyda sefydliadau eraill, yn enwedig Cyngor Sir Penfro, a bod cynnydd da yn cael ei wneud ar fframweithiau caffael. O ran swyddi gwag, nodwyd bod anawsterau recriwtio mewn rhai meysydd, ond bod y gwaith o feithrin perthnasoedd ag ysgolion yn parhau.

Nodwyd yr adroddiad, ac ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan Dr Havard, **cymeradwywyd** y symudiad mewn cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd hyd yn hyn.

## 9. Adroddiadau Archwilio Mewnol

Roedd Ceri Kwiechinski o Archwilwyr Mewnol yr Awdurdod, Astari, wedi cyflwyno 5 adroddiad sicrwydd oedd wedi'u cwblhau ers y cyfarfod diwethaf. Roedd yr adroddiadau ar Reoli Asedau – Rheoli Masnachol, Ymgysylltu â Chwsmeriaid a Rhanddeiliaid, a Chynllunio Strategol, wedi cael sicrwydd sylweddol, tra bod yr adroddiadau ar Reoli Risg a'r Adroddiad Dilynol ar y camau a gymerwyd tuag at weithredu'r camau y cytunwyd arnynt i fynd i'r afael ag argymhellion archwilio mewnol, wedi cael sicrwydd rhesymol.

**Nodwyd.**

**10. Log Gweithredu ar gyfer Archwiliad Perfformiad Allanol ac Archwiliad Mewnol (yn diweddu ar 31 Rhagfyr 2025)**

Atgoffwyd yr Aelodau bod Log Gweithredu ar Archwilio Perfformiad Allanol ac Archwilio Mewnol wedi'i greu, yn dilyn cais gan y Pwyllgor, i gynorthwyo gyda'r gwaith o fonitro'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o'r adolygiadau Archwilio. Roedd yr adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am bob un o'r camau gweithredu, ac y byddai'r camau hynny oedd yn deillio o'r adroddiadau Archwilio Mewnol a gyflwynwyd y bore hwnnw, yn cael eu hychwanegu at y Log Gweithredu yn dilyn y cyfarfod.

Nodwyd bod un cam gweithredu Archwilio allanol wedi'i ohirio ac mewn lliw coch oherwydd bod y swydd Pennaeth Twristiaeth Adfywiol yn wag, a bod un cam gweithredu Archwilio mewnol blaenoriaeth uchel heb ei gwblhau erbyn y dyddiad cau ac yn dal i fynd rhagddo. Byddai diweddariad llafar yn cael ei roi yn ystod y sesiwn breifat ar y gweithgaredd a wnaed hyd yn hyn i symud y cam gweithredu hwn ymlaen oherwydd ei fod yn ymwneud â seiberddiogelwch. Rhoddwyd diweddariad ar y camau gweithredu eraill.

Roedd yr Aelodau o'r farn nad oedd y cynnydd a gofnodwyd yn erbyn cam gweithredu yn cael ei amlygu yn ei lefel statws Coch Melyn Gwyrdd. Eglurodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth bod lefel y statws hwn yn aml yn amlygu dehongliad y swyddog o lefel y risg, ac a oedd y cam gweithredu yn debygol o gael ei gwblhau o fewn yr amserlen a nodwyd. Cytunodd i roi canllawiau pellach i'r swyddogion. Lle'r oedd eitemau mewn coch, roedd angen gwneud penderfyniad ynghylch a oedd y cam gweithredu yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Awdurdod, ac a ellid ei gyflawni mewn modd gwahanol; roedd hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried yn ofalus a ddylid derbyn argymhellion archwilio unigol.

**Nodwyd.**

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.30am a 11.45am.]

[Gadawodd y Cynghorydd George y cyfarfod yr adeg hon, gan ailymuno ar gyfer eitem 12.]

**11. Adroddiad ar y Perfformiad ar yr Amcanion Llesiant – Cynnydd yn erbyn y Dangosyddion a'r Prosiectau Blaenoriaeth/ Y Camau Gweithredu ar y Meysydd Newid Corfforaethol/ Y Camau Gweithredu ar Welliannau yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol am y Cyfnod yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2025**

Cyflwynodd y Swyddog Perfformiad a Chydymffurfiaeth ddau adroddiad. Roedd y cyntaf yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn ei bedwar Amcan Llesiant (Cadwraeth, Hinsawdd, Cysylltiad a Chymunedau) yn ei Gynllun Corfforaethol ac Adnoddau 2023/24 – 2026/27, gan amlinellu'r cynnydd yn erbyn y dangosyddion blaenoriaeth (gan gynnwys dangosyddion newydd Llywodraeth Cymru), y prosiectau a'r gweithgareddau a nodir yng Nghynlluniau Cyflawni yr Awdurdod. Roedd hyn yn rhan o'r gwaith monitro ar reoli Risgiau 1-4 yng nghofrestr risg yr Awdurdod.

Roedd adroddiad perfformiad 2 yn nodi perfformiad yr Awdurdod yn erbyn yr hyn y gellid ei gyflawni yn y maes newid corfforaethol yn y Cynllun Cyflawni, yn nodi'r perfformiad o ran yr elfennau llywodraethu yn adroddiadau Llywodraeth Cymru, y perfformiad ar yr hyn y gellid ei gyflawni o'r cynlluniau cyflawni, cynlluniau Llywodraeth Cymru, a'r camau gwella o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Roedd hyn yn rhan o'r gwaith monitro ar reoli'r Meysydd Risgiau 5, 6, 7, 9 ac 11 yng nghofrestr risg yr Awdurdod.

Nododd yr Aelodau bod y cynnydd yn araf mewn rhai meysydd oherwydd capasiti. Eglurodd y Swyddog bod y camau gweithredu wedi'u nodi yng Nghynlluniau Cyflawni yr Awdurdod neu wedi'u cysylltu â'r Amcanion Llesiant, a bod y rhain yn cael eu hadolygu yn flynyddol. Ychwanegodd y Prif Weithredwr ei fod yn fodlon bod rhai eitemau mewn melyn neu goch, cyn belled ag y gellid rhoi eglurhad am hynny.

**Nodwyd.**
[Ail-ymunodd y Cynghorydd George â'r cyfarfod, ac ymddiheurodd Ms Gwenllian cyn gadael.]

**12. Adroddiad Gwasanaethau Pobl**
Roedd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Pobl yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ar iechyd a diogelwch gan gynnwys adolygiad o'r data ar y syndrom dirgryniad llaw-braich ar ôl y flwyddyn gyntaf o gasglu data, a'r damweiniau a'r digwyddiadau yn nhrydydd chwarter 2025, absenoldeb salwch staff, hyfforddiant a datblygiad, gweithredu Deddf Hawliau Cyflogaeth 2025, cyflogau a graddfeydd, cynllunio'r gweithlu, a gwirfoddoli. Hefyd cafwyd diweddariad gan y Tîm Gwasanaethau Democrataidd ar y trefniant ar gyfer gwerthuso Perfformiad Aelodau unigol, hyfforddiant i'r Aelodau a'u presenoldeb.

**Nodwyd.**

13. **Eithrio'r Cyhoedd**
Ar gynnig y Cynghorydd Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd George, **PENDERFYNWYD** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i Ddeddf Llywodraeth Leol, yn cael ei datgelu.

14. **Polisi Rheoli Risg – Cofrestr Risg a Datganiad Rheoli Risg**
Cyflwynodd y Prif Weithredwr Gofrestr Risg yr Awdurdod ac amlinellodd y diwygiadau a wnaed ers y cyfarfod blaenorol. Hefyd cyflwynwyd dogfen ychwanegol yn rhoi ail linell o sicrwydd, yn unol ag argymhelliad yr Archwilwyr Mewnol. Ers y cyfarfod diwethaf, roedd rhai camau gweithredu wedi'u diweddaru a newidiadau eraill wedi'u gwneud, a rhoddwyd amlinelliad o'r rhai hyn.

Rhoddwyd diweddariad hefyd ynghylch y camau gweithredu y cytunwyd arnynt o archwiliad mewnol blaenorol ar seiberddiogelwch.

**Nodwyd.**

15. **Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwelliant Parhaus**

**Penderfynwyd** nad oedd unrhyw faterion o bryder yr oedd y Pwyllgor yn dymuno eu dirprwyo i'r Grŵp Gwelliant Parhaus i'w hystyried**.**

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Mai 2026 heb eu diwygio. |